


PARRY, JOHN (1775 - 1846), Caerlleon, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, llenor a golygydd



Enw: John Parry
Dyddiad geni: 1775
Dyddiad marw: 1846
Priod: Parry (née Bellis)
Rhiant: Jane Parry
Rhiant: Owen Parry
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, llenor a golygydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Richard Thomas

Ganwyd 7 Mai 1775 yn fab Owen a Jane Parry, Groeslon-grugan, plwyf Llandwrog, Sir Gaernarfon. Cafodd well addysg na'r cyffredin o ieuenctid yn y dyddiau hynny. Bu am dymor yn ysgol (**Madam Bevan**) ym Mrynrody, ysgol **John Roberts** (Llangwm), yn Llanllyfni, ac ysgol **Evan Richardson** yng Nghaernarfon. Yn 1793 aeth i gadw ysgol ym Mrynsiencyn, Môn - yr oedd honno'n ysgol ddydd i'r plant a hefyd yn ysgol nos i rai hŷn.

Rhoes ei fryd yn gynnar ar fynydd i weinidogaeth yr efengyl, ac ar Nadolig 1797 traddododd ei bregeth gyntaf. Yn 1800 symudodd i Gaerdybi, ond, oherwydd y galwadau a ddeuai arno fel pregethwr, ysbeidiol i raddau fu yr ysgol yno. Wedi ei briodas â Miss Bellis, Caerfallwch, Sir y Fflint, galwyd ef i wasnaethu'r eglwysi yn Llundain, ac ar yr un pryd cynorthwyai'r **Parch. Thomas Charles**, trwy ddarllen profenni'r Beibl Cymraeg a gyhoeddodd gan y Gymdeithas Feibla.

Yn 1806 ymsefydlodd John Parry a'i briod yn ninas Caer, ac wedi rhyw bedair blynedd o gadw siop ddillad troesant at gangen a oedd yn fwy dewisol ganddynt hwy, sef masnach lyfrau, a throes yr anturiaeth honno yn llwyddiant. Yn ei fasnach yr oedd yn ddiwyd, trefnus, a manwl.

Bu'n llenor dyfal ar hyd ei oes. Heblaw amrywiol fân lyfrau, cafwyd ganddo gofiant i'r Parch. John Brown yn ogystal â chyfieithiad o *Gorff Duwinyddiaeth* yr un gŵr. Daeth allan hefyd *Pedwar Cyflwr Dyn*, cyfieithiad o gyfrol y Parch. T. Boston. Ysgrifennodd *Esboniad ar Lyfr y Prophwyd Esaiah*, a hefyd ddau ramadeg, etc. Nid gwiw ychwaith ydyw anghofio'r **Parch. Thomas Charles** a gyhoeddwyd yn 1811 - un a fu faes cyntaf efrydiaeth gyfundrefnol i blant Cymru am dros gan mlynedd, sef *Rhodd Mam*.

Yr oedd Parry yn wresog ei ysbryd o blaid mudiadau fel y Genhadaeth Gartrefol a Thramor, addysg grefyddol, a gwaith yr ysgol Sul. Fe'i hordeiniwyd mor gynnar â'r flwyddyn 1814, a bu iddo ran yn ffurfiad cyffes ffydd y cyfundeb, 1823, yn ogystal â dwyn allan y weithred gyfansoddiadol wedi hynny. Wedi iddo sefydlu ei argraffwasg ei hun yn y flwyddyn 1818 cychwynnodd gylchgrawn misol, **Goleuad Gwynedd**. Ymhen tair blynedd, ar gais y cyhoedd, daeth hwn yn gyhoeddiad anenwadol dan yr enw *Goleuad Cymru* a'i bris yn 4c. Yn y flwyddyn 1830 daeth awydd am weled ail gychwyn **Y Drysorfa**, a ddaethai allan cyn hynny yn fylchog, ac yn Ionawr 1831 daeth allan y rhifyn cyntaf ohoni yn y gyfres newydd, ac ef a fu'n olygydd hyd ddiwedd ei oes.

Bu farw 28 Ebrill 1846.

Awdur

Y Parchedig Richard Thomas, (1872 - 1950)

Ffynonellau

Hugh Jones, *Cofiant y diweddar Barchedig John Parry, o Gaerlleon yr hwn a fu yn weinidog yr Efengyl yn nghyfundeb y Trefnyddion Calfinaidd am fwy na 48 mlynedd bu farw Ebrill 28, 1846, yn min 71 oed*

T. M. Jones, 'Y Parch John Parry, Caer,' *Y Traethodydd*, 1904, 446-452

Cymru (O.M.E.), xii, 229

Joseph Evans, *Biographical Dictionary of Ministers and Preachers of the Welsh Calvinistic Methodist Body æ€; to the close of the year 1850(1907)*, 238-41

'Marwolaeth Y Parchedig John Parry, Caerlleon,' *Y Drysorfa*, 1846, 192

Darllen Pellach

Delweddau

LIGC: Revd. John Parry, Chester

John Thomas, Rev. John Parry, Chester

Gweithiau

John Parry, *Gramadeg o'r iaith Gymraeg: wedi ei drefnu yn fyr ac eglur, a'i gyfansoddi mewn iaith rwydd, er addysg i bobl ieuaingc, ac ereil*(Caerlleon 1823)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18535853

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Thomas, R., (1953). PARRY, JOHN (1775 - 1846), Caerlleon, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, llenor a golygydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 8 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PARR-JOH-1775>

Cyfrwng

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LIGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION

